**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

22 Medi 2023

Annwyl Lesley,

Rheoliadau Cynhyrchion Diogelu Planhigion (Diwygiadau Amrywiol) 2023

Diolch am eich llythyr ar 13 Medi 2023 mewn cysylltiad â'ch bwriad i gydsynio i Lywodraeth y DU osod Rheoliadau Cynhyrchion Diogelu Planhigion (Diwygiadau Amrywiol) 2023 gerbron Senedd y DU. Nodwn mai bwriad Llywodraeth y DU yw gosod y rheoliadau drafft gerbron Senedd y DU ar 16 Hydref 2023, ac mai 31 Rhagfyr 2023 fydd y ddyddiad cychwyn.

Yn ein cyfarfod ar 18 Medi 2023, buom yn trafod eich llythyr a'r manylion ynddo. At hynny, mae nifer o faterion yr hoffem fynd ar eu trywydd ymhellach.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu ymateb i'n cwestiynau, sydd wedi'u cynnwys yn yr atodiad i'r llythyr hwn, erbyn 5 Hydref 2023.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

Atodiad

**Senedd Cymru**
**Welsh Parliament**

1. Rydych yn datgan eich bod wedi cael llythyr gan Rebecca Pow AS, Gweinidog Ansawdd a Chadernid yr Amgylchedd, yn gofyn am eich "[c]ydsyniad ffurfiol" i'r Rheoliadau. Mae'r Rheoliadau'n cael eu gwneud gan ddefnyddio pwerau yn *Neddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023*. Gwyddoch nad yw Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 yn cynnwys darpariaeth sy'n gwneud cydsyniad Gweinidogion Cymru yn ofynnol cyn i Weinidog y DU arfer pŵer dirprwyedig mewn maes datganoledig o dan y Ddeddf honno. Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn cadarnhau'r broses gydsynio a ddilynwyd mewn cysylltiad â'r Rheoliadau ac yn rhoi manylion amdani.

2. Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn cadarnhau yr ymgynghorwyd â Gweinidogion Cymru ar delerau'r Rheoliadau fel rhan o'r strwythurau fframwaith cyffredin perthnasol.

3. Cyn gwneud penderfyniad i gydsynio i'r Rheoliadau, a wnaeth Llywodraeth Cymru gynnal asesiad o'r pŵer penodol yn Neddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 sy'n cael ei ddefnyddio i wneud y Rheoliadau?

4. Cyn gwneud penderfyniad i gydsynio i'r Rheoliadau, a wnaeth Llywodraeth Cymru gynnal asesiad o'r dewis o weithdrefn graffu y mae Llywodraeth y DU yn ei dilyn?

5. Gwyddoch fod y pwerau yn adran 14 o Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 wedi'u cyfyngu i ddirymu neu ddisodli'r gyfraith y mae awdurdod cenedlaethol perthnasol yn ystyried nad yw'n cynyddu'r baich rheoleiddiol mewn maes pwnc penodol. Cyn gwneud penderfyniad i gydsynio i'r Rheoliadau, a oedd ystyriaeth Llywodraeth Cymru o'r Rheoliadau yn cynnwys asesiad o sut y maent yn cydymffurfio â'r cyfyngiad hwn ac a oes unrhyw gynnydd posibl i'r baich rheoleiddiol? Os felly, a fyddech yn ei rannu â'r Pwyllgor?